

# Cynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin

Mae cynefinoedd dŵr croyw yn cynnwys afonydd, pyllau, dyfroedd a gyflenwir gan ddyfrhaen sy'n arddangos amrywiadau naturiol yn lefel y dŵr, llynnoedd mesotroffig a llynnoedd oligotroffig a dystroffig. Mae hefyd yn cynnwys camlesi. Mae cysylltiad agos rhyngddo â'r cynllun gweithredu cynefin ar gyfer gwlyptiroedd.

Mae gan y sir rwydwaith cyfoethog a chymhleth o **afonydd** a nentydd, yn amrywio o nentydd tir uchel cul, sydd wedi torri'n ddwfn i'r tir, i rannau tir isel addfwynach, dolennog afon Tywi. Mae'r amrywiaeth hwn o gynefinoedd dŵr croyw yn cynnal planhigion ac anifeiliaid (fflora a ffawna) sy'n nodweddiadol o'r cynefinoedd hyn, ac mae'r rhwydwaith cyrsiau dŵr yn gweithredu fel coridor i fywyd gwyllt i symud ar draws y sir, gan gysylltu safleoedd gwlyptir a dod â bywyd gwyllt i ganol ein canolfannau trefol. Caiff gwerth afonydd y sir ei gydnabod ar lefel Ewropeaidd a chenedlaethol ac mae afonydd Tywi a Theifi, ynghyd ag aberoedd afonydd Taf, Gwendraeth a Llŵchwr, wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA).


Gall y brithwaith (amrywiaeth) o nodweddion cynefin a geir mewn afonydd a nentydd gynnal amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid; mae crychdonnau, rhediadau a phyllau yn cynnal rhywogaethau dŵr, mae gwaddod afon wedi'i ddinoethi – er enghraifft gwelyau gro a barrau tywod – yn bwysig i amryw o infertebratau, yn arbennig chwilod daear, corynnod a phryfed teiliwr. Mae gwenoliaid y glennydd yn nythu mewn banciau moel a chwtiaid torchog bach yn nythu ar farrau gro, tra mae llystyfiant ymylol, a llystyfiant ar hyd y glannau, yn cynnal amrywiaeth o ffawna a fflora. Mae afonydd a nentydd yn aml yn gallu darparu coridor bywyd gwyllt pwysig rhwng cynefinoedd sydd wedi'u darnio mewn ardaloedd sy'n cael eu ffermio'n ddwys a chynnal amryw o rywogaethau y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yn cynnwys dyfrgwn, llygoden bengron y dŵr, gwangod a Misglen berlog yr afon.

Mae blaenddyfroedd hefyd yn gynefin pwsig. Amgylcheddau ar raddfa fach ydyn nhw sy'n cael eu hesgeuluso'n fawr ond sy'n bwysig i lawer o blanhigion ac infertebratau. Dylid ystyried y cyfle i adfer blaenddyfroedd a gwlyptiroedd yr un pryd mewn prosiectau.

Mae nentydd dyffrynnoedd yr ucheldir yn fannau silio ac yn feithrinfeydd pwysig i eog a sewin, sy'n defnyddio'r ardaloedd crychdonnau gyda chlogfeini wedi'u gwasgaru ar eu hyd ar gyfer bwyd a lloches. Mae afon Tywi, ynghyd â'i llednant afon Cothi, ac afon Teifi, yn enwog fel afonydd

## Cynefinoedd Dŵr Croyw

Partneriaeth Natur  
SIR GŶR • CARMARTHENSHIRE  
Nature Partnership



© Isabel Macho

### Manteision naturiol cynefinoedd dŵr croyw

Yn ogystal â gwerth cynhenid y cynefinoedd hyn a'u gwerth i'r rhywogaethau y maent yn eu cynnal, maen nhw'n darparu nifer o fanteision naturiol i ni:

- Darparu dŵr ffres inni.
- Diwylliannol – mae afonydd yn allweddol i hanes anheddu yn y sir.
- Storio dŵr a rheoli llif y dŵr.
- Twristiaeth – pysgota, canwio, nofio.
- Echdynnu graean ar gyfer adeiladu.
- Gwrteithio gorlifdiroedd yn naturiol.

**Pam mae cynefinoedd dŵr croyw yn newid** (o adroddiad *State of Nature*: [www.rspb.org.uk/stateofnature/](http://www.rspb.org.uk/stateofnature/))?

- Addasiadau ffisegol a draenio.
- Llygredd dŵr.
- Diffyg rheoli gweithredol.
- Newid hinsawdd.
- Echdynnu dŵr.
- Rhywogaethau estron a chlefydau sydd wedi cael eu cyflwyno.

eog a brithyll, a chaiff afon Tywi ei chydabod fel un o brif afonydd sewin Ynysoedd Prydain, gan ddod ag incwm masnachol hollbwysig i'r ardal leol.

Mewn cyferbyniad i nentydd chwim yr ucheldir mae'r ffosydd draenio tir isel ar wastadeddau arfordirol Sir Gaerfyrddin. Maen nhw'n bwysig i amrywiaeth o fywyd gwyllt yn cynnwys llygod pengrwn y dŵr sydd dan fygythiad cynyddol, a rhywogaethau o blanhigion, infertebratau ac adar, ac maent yn rhan annatod o dirwedd y morfa pori arfordirol.

Mae ein hafonydd a'n nentydd yn cael eu gwerthfawrogi'n eang hefyd gan y cyhoedd. Mae harddwch a gwerth bioamrywiaeth ein prif afonydd yn ased twristiaeth pwysig i'r sir.

Cynefin dŵr croyw pwysig arall yw'r unig enghraifft yn y sir o **ddyfroedd a gyflenwir gan ddyfrhaen, ac sy'n arddangos amrywiadau naturiol yn lefel y dŵr**. Llynnoedd dros dro yw'r rhain – cânt eu galw'n 'turloughs' neu'n llynnoedd diflannol, ac fe'u ceir mewn ardaloedd o galchfaen carbonifferaidd. Nid oes mewnfa nac allfa weladwy i'r llynnoedd hyn – cânt eu bwydo gan ddŵr daear. Maen nhw'n amgylcheddau unigryw o ran eu daeareg a'r bywyd gwyllt prin y maent yn ei gynnal. Gan eu bod yn cael eu bwydo gan ddŵr daear maent yn llenwi'n rheolaidd â dŵr yn y gaeaf ac yn wag yn yr haf. Yn Sir Gaerfyrddin, saif turlough Pant-y-llyn ym mhen dwyreiniol ACA Coed Carmel. Fel arfer mae'n wag erbyn mis Mehefin-Gorffennaf ac yn llenwi eto rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr.

Mae'r cynefinoedd dŵr croyw eraill yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys ein **llynnoedd** – mae nifer ohonynt wedi'u dynodi'n SoDdGA. Mae Llyn Talylychau (SN631337), Llyn Pencarreg (SN537456) a Llyn Llech Owain (SN568151) i gyd yn SoDdGA, a'r ddau olaf yn enghreifftiau o ddyfroedd prin o faethynnau (oligotroffig). Ymysg yr enghreifftiau eraill o ddyfroedd mwy yn y sir mae Llyn Taliaris a Chronfa Lliedi.

Nid yw'r sir yn adnabyddus am ei **pyllau dŵr** ac mae llawer o'r enghreifftiau mwyaf wedi cael eu creu yn sgil diwydiant, e.e. crëwyd Pyllau Machynys yn Llanelli yn sgil cloddio clai i wneud brics yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae Pwll yr Esgob (SoDdGA) yn Abergwili yn un o'r enghreifftiau gorau o ddŵr agored yn y sir – ystumllun o afon Tywi sydd wedi'i wahanu oddi wrthi yw'r pwll. Mae i rai o'n pyllau dŵr werth at ddibenion hamdden ac maent yn cael eu stocio â physgod, e.e. pyllau Cwm-yr-Oernant yng Nghaerfyrddin a Phwll Twym yn Llanelli. Mae Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir ym Mhenclacwydd wedi creu nifer o ddyfroedd sydd ers hynny wedi datblygu'n gynefinoedd uchel eu gwerth o ran bioamrywiaeth.

Mae'r amrywiaeth dyfroedd yn Sir Gaerfyrddin yn darparu cynefin gwerthfawr i adar dŵr ac adar eraill, infertebratau

## Rhywogaethau blaenoriaeth cysylltiol:

### Adar

Cwtiad torchog bach

Cwtiad torchog

Golfan y mynydd

### Mamaliaid

Dyfrgi

Llygoden bengron y dŵr

Rhywogaethau o ystlumod

### Planhigion/isblanhigion

Cegiden bibellddail

Mwsogl afon aml-ffrwythog

Dŵr-lyriad nofiadwy

### Pysgod

Herlyn

Gwangen

Llysywen

Llysywen bendoll yr afon

Llysywen bendoll y môr

Eog

Brithyll/sewin

### Infertebratau

Chwilen ddaear (*Bembidion quadripustulatum*)

Chwilen blymio (*Bidessus minutissimus*)

Chwilen blymio (*Hydroporus rufifrons*)

Pryf teiliwr gïeuog (*Lipsothrix nervosa*)

Misglen berlog yr afon

Gwybedyn Mai haearnlas

*Spiriverpa lunulata* (pryf)

Chwilen grwydr (*Thinobius newberyi*)

## Afon Tywi



(yn enwedig os oes llystyfiant ymylol da) a fflora.

Mae gwerth bioamrywiaeth lleol i byllau gardd, ond gallant fod yn ffynhonnell rhai rhywogaethau planhigion dyfrol ymledol anfrodorol megis Plu'r Parot a Chorchwyn Seland Newydd. Gall y rhain greu nifer o broblemau, megis creu llifogydd trwy dagu cyrsiau dŵr a sianeli draenio. Gallant lenwi ardal ddyfrol yn gyflym iawn, gan ddisodli rhywogaethau brodorol.

Ni ddylid diystyru rôl y rhyngweithio rhwng cynefinoedd dŵr croyw a chynefinoedd daearol (ac i raddau llai gynefinoedd morol). Gall cynefin daearol o ansawdd wael gael effaith negyddol arwyddocaol ar afonydd.

Phyllau dŵr



Pant-y-Llyn



### **Ble gallwch chi weld y cynefinoedd hyn yn y sir:**

*Afonydd a nentydd:* Ar hyd a lled y sir! Fodd bynnag, edrych ar y teithiau cerdded yn Nyffryn Cothi.

*Llynnoedd:* SoDdGA Llynnoedd Talylychau (SN631337), SoDdGA Llyn Pencarreg (SN537456) a SoDdGA Llyn Llech Owain (SN568151).

*Pyllau dŵr:* Parc Dŵr y Sandy yn Llanelli, mae Pwll yr Esgob (SoDdGA) yn Abergwili yn un o'r enghreifftiau gorau o ddŵr agored yn y sir – ystumllyn o afon Tywi, Cwm-yr-Oernant, Caerfyrddin. SoDdGA Merllyn y Pwll a Phwll Lludw, Porth Tywyn.

### **Datganiad o weledigaeth ac amcanion**

Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y cynllun hwn yw cynnal, adfer a chyfoethogi'r cynefinoedd dŵr croyw hyn yn y sir a'r rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â nhw. Mae gallu pob un o'n cyrsiau dŵr i weithredu fel coridor bywyd gwyllt effeithiol yn brif amcan. Mae dalgylchoedd afonydd yn systemau dynamig a lle mae hynny'n bosib ni ddylai'r prosesau geomorffolegol sy'n dylanwadu arnynt gael eu llesteirio drwy ymyrraeth ddynol a 'rheoli'.

Hoffem gynyddu'r nifer o byllau bywyd gwyllt fel cyfle i dirfeddianwyr, teuluoedd, ysgolion a chymunedau i gymryd rhan fyw mewn prosiect i gynyddu bioamrywiaeth. Mae hyn yn neilltuol o bwysig yng nghyd-destun cysylltu cynefinoedd â'i gilydd yn nhirwedd Sir Gaerfyrddin. Byddai unrhyw weithredu yn ceisio cyflawni un neu fwy o'r amcanion isod:

- ▶ Rheoli cynefinoedd dŵr croyw yn Sir Gaerfyrddin, ansawdd y dŵr a chynefinoedd torlannol/ymylol mewn modd cadarnhaol.
- ▶ Cynyddu'r nifer o byllau dŵr yn y sir.
- ▶ Cynnal ac ehangu'r ystod a/neu'r boblogaeth o rywogaethau sy'n gysylltiedig â dŵr croyw.
- ▶ Nodi a chofnodi pyllau dŵr/dyfroedd croyw arwyddocaol a'r rhywogaethau sy'n gysylltiedig â nhw yn y sir.
- ▶ Codi ymwybyddiaeth o gynefinoedd dŵr croyw a'r manteision a gawn ni yn eu sgil.

**Dolenni defnyddiol:**

<http://jncc.defra.gov.uk/page-1430>

[www.wildlifetrusts.org/wildlife/habitats/wetlands-and-rivers](http://www.wildlifetrusts.org/wildlife/habitats/wetlands-and-rivers)

[Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru](#)

[www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Freshwater](http://www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Freshwater)